Afasic GeirfA

Problemau seinyddol

Beth yw problemau seinyddol ?

Bydd plentyn sydd â phroblem seinyddol yn cael anhawster i ynganu nifer o synau. Gellir gosod y synau a gaiff eu camynganu mewn grwpiau yn ôl nodweddion penodol, fel ym mha ran o'r geg y caiff y swn ei ynganu neu sut y caiff ei ynganu.

Mae yna lawer o brosesau seinyddol (rheolau yn ymwneud â synau) y bydd plentyn yn eu defnyddio a fydd yn effeithio ar y ffordd y caiff grwpiau o synau tebyg eu hynganu. Mae enghreifftiau'n cynnwys

- **defnyddio rhan flaen y geg** – pan gaiff synau y dylid eu cynhyrchu yng nghefn y geg eu cynhyrchu ymhellach ymlaen yn y geg: bydd car yn troi'n tar neu'n par, bydd gwn yn troi'n dwn neu'n pwn, a bydd ing yn troi'n in neu'n im.
- **defnyddio rhan ôl y geg** – y gwrthwyneb i ddefnyddio rhan flaen y geg – pan gaiff geiriau eu cynhyrchu ymhellach yn ôl yn y geg: bydd pen yn troi'n ten neu'n ken, bydd tabl yn troi'n cabl, bydd berw yn troi'n derw neu gerw, a bydd dol yn troi'n gol.
- **stopio seiniau ffrithiol**, pan gaiff synau ffrithiol hirach (ff,s,sh,th) eu hynganu fel synau ffrwydrol byr (p, b, t, d, c): bydd sôn yn troi'n tôn, a faint yn troi'n paint.
- **lleihau clwstwr**, pan fydd y plentyn yn hepgor un o'r ddwy neu dair cytsain sy'n digwydd gyda'i gilydd: bydd blagur yn troi'n bagur, bydd stori'n troi'n sori. l, r ac s yw'r llythrennau a gaiff eu hepgor gan amlaf.

Efallai y bydd plentyn yn gwneud defnydd o fwy nag un broses seinyddol, hyd yn oed o fewn un gair. Efallai y bydd safle'r synau yn y geiriau yn effeithio ar y prosesau – er enghraifft, defnyddio synau yn rhan flaen y geg ar ddechrau geiriau'n unig, fel bod cap yn troi'n tap ond caiff bach ei ynganu'n gywir.

Efallai y bydd y plentyn yn defnyddio'r prosesau'n gyson neu'n anghyson – pob swn c a s ar ddechrau gair, neu dim ond rhai ohonynt. Oherwydd nifer y synau yr effeithir arnynt, bydd lleferydd y plentyn yn aml yn annealladwy i ddieithriaid ac i'r teulu, gan beri i'r ddau barti deimlo'n rhwystredig,

Gellir cyfeirio at broblem seinyddol hefyd fel anhwylder seinyddol. Dywedir bod plentyn yn dioddef o oedi seinyddol pan fydd yn defnyddio prosesau seinyddol sy'n fwy nodweddiadol o blentyn iau. Mae anhwylder ar seinyddiaeth plentyn pan fydd y prosesau a ddefnyddir yn anghyson a phan na fyddant yn dilyn patrwm normal datblygiad seinyddol.

Gall problemau seinyddol ddeillio o lawer o ffactorau gan gynnwys:

- anaeddfedrwydd cyffredinol neu anabledd dysgu
- heintiadau rheolaidd yng nghanol y glust sy'n effeithio ar allu'r plentyn i glywed y gwahaniaeth rhwng synau tebyg.
- cymhelliant isel ar ran y plentyn oherwydd bod y teulu'n deall y plentyn beth bynnag, neu oherwydd nad ydynt yn disgwyl i'r plentyn siarad yn gliriach.
- rheolaeth wan dros y gwefusau, y tafod a chyhyrau'r daflod a ddefnyddir i siarad.

Mae problemau seinyddol yn gysylltiedig ag anawsterau darllen hefyd. Ni all problemau seinyddol ddeillio o dafotgaeth. Bydd tafotgaeth yn effeithio ar ynganiad un swn yn unig, sef r.

Cyfeiriadau

Lancaster, S a Pope, L (1989), *Working with Children's Phonology*, golygwyd gan Martin, S, Winslow Press

Dean, E, Howell, J, Hill, A a Waters, D (1990), *Metaphon Resource Pack*, NFER Nelson

Taflenni Geirfa perthnasol eraill

- Nam iaith penodol (1)
- Dyslecsia/anawsterau dysgu penodol (2)
- Ynganiad (10)

Sefydliadau eraill a all helpu

Royal College of Speech and Language Therapists
2 White Hart Yard, London SE1 1NX
Ffôn: 020 7378 1200

Ysgrifennwyd gan Catherine Humphreys, therapydd lleferydd ac iaith, gyda diolch i Elizabeth Auger, athrawes iaith arbenigol